*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**RHAGLEN PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**19.00 nos Fawrth Tachwedd 26ain 2024**

**COFNODION**

**E.1.11.24 Presennol :- Cynghorwyr :-** Gwilym Jones; Carol Hayes; Aled Griffith ( Cadeirydd); Alwyn Gruffydd; Glenda Murray
Elfyn Lewis ( Cadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb)
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Llywelyn Rhys

**E2.11.24 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Dr Melfyn Edwards; John Gwynedd Roberts; Michael Roberts; Karena Owens

Oherwydd nad oedd presenoldeb angenrheidiol o 6 i gael quorum penderfynwyd rhoi'r Rheolau Sedydlog o'r neilltu er mwyn cynnal y cyfarfod yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Gadawodd Cyng Gwilym Jones y cyfarfod gan ddatgan diddordeb yn y mater isod.
**E3.11.24 Cae Pawb**

Derbyniwyd yr adroddiad yn dilyn archwiliad diweddaraf Cae Pawb ar 9.11.24 yn gywir. Roedd Elfyn Lewis yn adrodd fod pethau'n rhedeg yn well ar hyn o bryd gyda'r pwyllgor newydd a cododd y materion canlynol :-
Dileu'r £3 ychwanegol i'r rhent blynyddol o £20 a gesglir gan y Gymdeithas i glirio costau torri gwair y tu allan i'r rhandiroedd. Nodwyd y bydd anfonebau Cae Pawb yn mynd o Ebrill 1 2025 i Ragfyr 31 2025 ac yn flynyddol wedyn o Ionawr 1 i Ragfyr 31yn 2026.
**Penderfynwyd :-** dileu'r £3 ychwanegol; y Cyngor Tref i roi mwy o gyfraniad i glirio'r costau yma yn y Ceisiadau Ariannol ym mis Chwefror; codi rhent blynyddol o £20 i £25 o Ionawr 1 2026 ymlaen yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

- Roedd Elfyn Lewis yn pwysleisio mai cyfrifoldeb Pwyllgor Cae Pawb **yn unig** - ac nid tenantiaid eraill Cae Pawb - yw dangos a chynnig plotiau gwag i ddarpar denantiaid .

- Roedd yn poeni am gyflwr y ffordd i mewn i Gae Pawb a chytunwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw'r tir yma. Gan fod National Grid yn sôn am gael mynediad i Gae Pawb fel rhan o'u cynllun gosod ceblau trydan rhaid disgwyl i weld beth ddaw o hynny cyn gweithredu.

- Llogi sgip – awgrymwyd y dylid gwneud cais am arian yn y Cais Ariannol ym mis Chwefror i glirio costau hurio sgip.

- Nodwyd bod y drefn o adael i denantiaid symud o un rhandir i randir arall yn parhau.

Gadawodd Elfyn Lewis y cyfarfod.
Dychwelodd Cyng Gwilym Jones i'r cyfarfod.

**E4.11.24** **Llwybrau -** dim i'w adrodd

**E5.11.24** **Cae Bodawen –** dal i ddisgwyl i G.L.Jones osod giât newydd. Y Clerc i holi unwaith eto.

**E6.11.24** **Bryn Coffa –** dim i'w adrodd

**E7.11.24** **Llochesi Bws –** lloches bws Aldi wedi cael sedd newydd yn dilyn fandaliaeth.

**E8.11.24** **Cerflun Madocks –** diweddariad am gomisiwn Ffion Gwyn
Ar ôl derbyn 3 drafft o'r bwrdd gwybodaeth teimlwyd nad oedd yr un ohonynt yn taro deuddeg am iddynt fod yn llawer rhy eiriog ac nad oedd arnynt fawr ddim gwybodaeth am Madocks ei hun. Dangoswyd yr ebost cychwynnol efo'r brîff gwreiddiol a chytunwyd fod angen bod yn llawer mwy pendant ynglyn â chynnwys y gwaith.
**Penderfynwyd :-**
Cyng Carol Hayes i ddefnyddio ymchwil blaenorol ar Madocks i ddewis gwybodaeth i'w gynnwys ar y gwaith a'i roi gerbron y Pwyllgor Llawn ym mis Ionawr; y Clerc i ysgrifennu at Ffion Gwyn i ddiolch iddi am ei llafur ac i ofyn iddi oedi tra mae'r Cyngor Tref yn ail-ymweld â chynnwys y wybodaeth; i gydnabod ein bod wedi gofyn gormod wrth roi brîff gwreiddiol rhy ben-agored iddi; i ofyn iddi lunio'r gwaith yn yr un arddull â'r ddau ar y Cob Crwn; i ofyn iddi lunio gwaith fyddai'n apelio at blant ac oedolion; gan obeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn y gwanwyn.

**E9.11.24** **Gwaith celf Howard Bowcott –** arwyddo cytundeb newydd
Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno cofnodi ei gwrthwynebiad llwyr i'r Cadeirydd arwyddo'r cytundeb oedd wedi ei benderfynu arno yng nghyfarfod 12.11.24. Eglurwyd fod y Cyngor Tref – wrth dalu yswiriant ychwanegol o £39.10 ar ben primiwm yswiriant blynyddol o £1,860.11 – yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ac yn derbyn perchnogaeth am y 4 darn celf ac fe arwyddwyd y cytundeb.
Mynegwyd anfodlonrwydd yn y ffordd yr oedd yr artist wedi cynnwys testun ar y gwaith celf mor hwyr yn y broses heb ymgynghori yn gyntaf gyda'r Cyngor Tref na'r Tîm Llechi ynglyn â chynnwys y testun. Teimlwyd fod y datblygiad diwethaf yma wedi cael ei orfodi arnom ar yr unfed awr ar ddeg gan y cerflunydd.

**E10.11.24** **Diweddariad ar y cynllun newid baneri Draig Goch**

Clywyd fel y mae 46 o bolion fflag a baneri wedi eu tynnu oddiar siopau'r Stryd Fawr gan contractwr lleol ac wedi eu cadw yn swyddfa'r Clerc. Bydd gweddill y polion a'r fflagiau yn cael eu tynnu i lawr maes o law.
**Penderfynwyd :-** yn hytrach na rhoi'r polion yn y siop i'w cadw tan y gwanwyn bydd y Clerc yn trefnu gyda'r contractwr i'w cadw gyda'r gweddill yn swyddfa'r Clerc. Bydd y Clerc wedyn yn gosod baneri newydd arnynt a gobeithir eu rhoi'n ôl yn eu lle erbyn Mawrth 1 2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

*Marian Roberts* (Clerc)
28.11.24